## Cymorth

Yn y cyfamser, os bydd arnoch angen cymorth cyn cael diagnosis yn ogystal â chyngor neu strategaethau, dyma rai cysylltiadau defnyddiol yn eich ardal.

Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth

Yr elusen bennaf yn y Deyrnas Unedig sy'n darparu gwybodaeth am wahanol wasanaethau cymorth, a chanllawiau a chymorth emosiynol i rieni a gofalwyr.

www.autism.org.uk

ASD Info Cymru

Mae ASD Info Cymru yn darparu gwybodaeth am Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig, manylion am wasanaethau, cyfleoedd hyfforddiant a diweddariadau ynghylch cyflawni Cynllun Gweithredu Strategol Cymru ar gyfer ASD.

http://autismwales.org/en/

Dechrau'n Deg

Cymorth i deuluoedd plant dan 4 oed, gan gynnwys cymorth dwys gan ymwelwyr iechyd, gofal plant di-dâl i blant 2-3 blwydd oed a rhaglenni magu plant.

Rhif ffôn: 01554 742447 (Sir Gaerfyrddin)

01437 775700 (Sir Benfro)

01239 621687 (Ceredigion)

Plant Dewi

Cymorth i deuluoedd plant rhwng 0 ac 11 oed, yn cynnig cymorth, cyrsiau rhianta a meithrin hyder.

Rhif ffôn: 01267 221551 (Sir Gaerfyrddin)

014377 770020 (Sir Benfro)

01545 574187 (Ceredigion)

www.plantdewi.org.uk

Young Minds

Yn cynnig cyngor a chymorth o ran pryderon am ymddygiad, llesiant emosiynol ac iechyd meddwl.

Rhif ffôn: 0808 8025544

Y Tîm o Amgylch y Teulu (TAF)

Bydd y tîm yn helpu'r rhai sy'n poeni am eu plant neu'n dioddef straen yn sgil magu plant i ddatblygu cryfderau yn y teulu a chwilio am gymorth ychwanegol.

Rhif ffôn: 01267 246555 (Sir Gaerfyrddin)

014377 775700 (Sir Benfro)

01545 572649 (Ceredigion)

Cerebra

Mae Cerebra yn elusen unigryw a sefydlwyd I geisio gwella bywydau plant â chyflyrau sy'n effeithio ar yr ymennydd, trwy gyfrwng ymchwil, addysg a darparu cymorth uniongyrchol I blant a'u gofalwyr.

www.cerebra.org.uk

Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni Sir Benfro

Cyngor a chymorth cyfrinachol, yn ogystal â chymorth ymarferol â llythyrau a llenwi ffurflenni. Mae'n helpu pobl I gael mynediad I wahanol wasanaethau cymorth hefyd, ac I wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am ysgolion a lleoliadau addysg eraill a darpariaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill.

Rhif ffôn: 01437 776354 (Sir Benfro)

pps@pembrokeshire.gov.uk

Autism Wellbeing

Mae Autism Wellbeing CIC yn fenter gymdeithasol ddi-elw sydd wedi'i lleoli yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r tîm yn cynnwys gweithwyr proffesiynol medrus iawn sydd ag arbenigeddau mewn awtistiaeth, prosesu synwyryddion a seicoleg. Maent yn cynnig cymorth, cyrsiau hyfforddi ac adnoddau.

https://www.autismwellbeing.org.uk/

**Cysylltwch â ni:**

**Y Tîm Amlddisgyblaethol Niwroddatblygiadol**

**Adeilad 1, Parc Dewi Sant, Job's Well Road**

**Caerfyrddin, SA31 3HB**

**01267 283077**

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

# Y Gwasanaeth Niwroddatblygiadol

# Gwasanaeth Asesu Awtistiaeth

**Taflen wybodaeth ar gyfer cleifion, rhieni a gofalwyr**

## Y camau olaf

Ar ôl i'r Tîm Amlddisgyblaeth wneud penderfyniad, byddwn yn cysylltu â chi i drafod canlyniad yr asesiad, a gallwch ddewis cael adborth dros y ffôn neu mewn cyfarfod â chlinigydd.

Byddwch yn cael adroddiad adborth sy'n nodi manylion y broses asesu a sut y gwnaed y penderfyniad. Byddwch yn cael gwybod ar yr adeg hon p'un a yw eich plentyn wedi bodloni'r meini prawf o ran diagnosis ASD neu beidio.

Yn dibynnu ar ganlyniad yr asesiad, cewch wybodaeth berthnasol a chewch eich cyfeirio at wahanol wasanaethau, gan gynnwys sefydliadau yn y trydydd sector a fydd yn gallu eich helpu chi a'ch plentyn o bosibl.

Yn olaf, rydym yn argymell eich bod yn rhannu canfyddiadau'r asesiad â'ch Meddyg Teulu, darparwr addysg a gwasanaethau eraill sy'n ymwneud â'ch plentyn. Yn ystod yr apwyntiad, bydd cyfle i chi ddweud â phwy yr hoffch rannu'r canlyniad. Unwaith y bydd yy canfyddiadau wedi cael eu trafod a'u rhannu, cewch eich trosglwyddo o'r Gwasanaeth Niwroddatblygiadol yn ôl i'r gwasanaeth Pediatreg.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Pan fydd y broses asesu wedi'i Chwblhau, caiff y wybodaeth hon ei thrafod yn y cyfarfod amlddisgyblaeth wythnosol. Bydd y tîm yn y styried y wybodaeth hon ac yn trafod a yw'n gyson â'r meini prawf safonol ar gyfer diagnosis Anhwylder yn y Sbectrwm Awtistig.


## Beth sy'n digwydd gyntaf?

Gofynnir i chi lofnodi ffurflen ganiatâd a fydd yn caniatau i ni gasglu rhagor o wybodaeth. Ar ôl hynny, anfonir llythyr atoch a bydd enw eich plentyn yn cael ei roi ar restr aros.

Gofynnir i chi lenwi ffurflenni ychwanegol ynglŷn â hanes meddygol yn y gorffennol, hanes y teulu, datblygiad iaith, rhyngweithio cymdeithasol a chwarae dychmygus. Trafodir hyn a phryderon cyfredol eraill yn y cyfarfod cychwynnol.

Mae'n bosibl y bydd angen i ni wneud asesiad pellach a fydd yn cynnwys arsylwi'n uniongyrchol ar eich plenty yn y clinig ac yn yr ysgol er mwyn helpu'r broses ddiagnostig. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen i ni gasglu gwybodaeth ychwanegol gan wasanaethau eraill a all fod yn ymwneud â'ch plenty, er enghraifft, Therapi Lleferydd ac Iaith, Therapi Galwedigaethol, ac ati. Gall hon fod yn broses hir sy'n gallu amrywio o ran ei hyd, ond bydd y nein galluogi ni i ddod i benderfyniad manwl gywir.

## Pwy sy'n rhan o dîm ASD?




Mae'r tîm ASD yn cyfarfod bob wythnos i drafod achosion mewn cyfarfod amlasiantaeth.

## Pam mae fy mhlentyn wedi cael ei atgyfeirio at y Tîm Niwroddatblygiadol?

Mae'n bosibl eich bod chi, neu weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'ch plenty, wedi sylwi ar anawsterau o ran cyfathrebu, sgiliau cymdeithasol a dealltwriaeth emosiynol eith plenty. O ganlyniad, mae eich Pediatregydd neu glinigydd yn y Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (S-CAMHS) wedi atgyfeirio eich plenty I gael asesiad pellach. Y ffocws fydd asesu a oes gan eich plentyn anawsterau sy'n gyson ag Anhwylder y Sbectrwm Awtistig (ASD).